# PWYLLGOR CYNLLUNIO

## DYDD MAWRTH, 30 MEHEFIN 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas, J.E. Williams a
D. Cundy, yn lle'r Cynghorydd J. D James.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio;
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu;
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain);
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
A.Z. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio);
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhith-Gyfarfod – 10:00yb - 12:15yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.D. James.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Cynghorydd/ Cynghorwyr | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J. Gilasbey | **4.1 - S/38282**<br>Bwriad i adeiladu Ysgol Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 174 o ddisgyblion a Meithrinfa ar gyfer 30 o blant sy'n cynnwys mynediad cysylltiedig, maes parcio, cae chwaraeon, maes chwarae amlddefnydd a gwaith seilwaith a thirlunio cysylltiedig. Ar dir i'r dwyrain o Barc Pendre, Cydweli, SA17 4AJ | Mae'r Cynghorydd Gilasbey wedi chwarae rhan allweddol yn y prosiect ac felly roedd ganddi eisoes farn ar y mater.<br><br>Mae'r Cynghorydd Gilasbey yn Llywodraethwr Awdurdod Lleol yn Ysgol Gwenllian Cydweli |
| D. Cundy;<br>C. Jones;<br>D. Jones;<br>A. Lenny;<br>D. Phillips;<br>G.B. Thomas. | **4.3 - S/39358 –**<br>Newid defnydd yr eiddo o breswylfa Dosbarth C3 i Gartref Preswyl Plant Dosbarth C2 yn 2 Erw Las, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9SF. | Nid oedd y cynghorwyr yn bresennol yng nghyfarfod ymweliad safle'r Pwyllgor a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2020. |

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **E/40029** | **Adeiladu pedair preswylfa, a'r holl waith cysylltiedig ar dir yn Ffordd y Glowyr, Betws, Rhydaman, SA18 2JZ** |

4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **S/38282** | **Bwriad i adeiladu Ysgol Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 174 o ddisgyblion a Meithrinfa ar gyfer 30 o blant sy'n cynnwys mynediad cysylltiedig, maes parcio, cae chwaraeon, maes chwarae amlddefnydd a gwaith seilwaith a thirlunio cysylltiedig. Ar dir i'r dwyrain o Barc Pendre, Cydweli, SA17 4AJ**<br><br>(NODER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd J. Gilasbey y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.) |
| **S/39961** | **Estyniad deulawr arfaethedig ac addasu garej yn rhannol yn 14 Llys Cilsaig, Dafen, Llanelli, SA14 8QT** |

4.2 PENDERFYNWYD y dylid derbyn y rhesymau gwrthod, yn seiliedig ar y rhesymau a ddarparwyd gan y Pwyllgor Cynllunio ar 11 Chwefror 2020, a nodwyd yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio: -

| | |
|---|---|
| **S/39358** | **Newid defnydd yr eiddo o breswylfa dosbarth C3 i Gartref Preswyl Plant dosbarth C2 yn 2 Erw Las, Llwynhendy, Llanelli, SA14 9SF**<br><br>(NODER: Nid oedd y Cynghorwyr D. Cundy, C. Jones, D. Jones, A. Lenny, D. Phillips a G.B. Thomas ,ar ôl datgan diddordeb yn gynharach, yn bresennol yn y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 11 Chwefror 2020, ac er iddynt aros yn y cyfarfod yn ystod y trafodaethau, ni wnaethant gymryd rhan yn y trafodaethau na phleidleisio ar benderfyniad yr adroddiad). |

**5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**5.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **W/39871** | **Addasu sgubor yn llety gwyliau ym Mhantybarcud, Felindre, Llandysul, SA44 5XJ** |
| **W/40201** | **Dymchwel y gegin, yr ystafell ymolchi a'r adeilad allanol presennol. Adeiladu estyniad unllawr â tho gwastad i'r breswylfa er mwyn cynnwys cegin ac ystafell ymolchi yn 53 Hillcroft, Heol Blaenhirwaun, Drefach, Llanelli, SA14 7AJ.** |

**5.2 PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio W/39913 yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio, ar y sail y barnwyd fod y datblygiad arfaethedig yn unol â Pholisïau H5, SP15 a TSM4, a bod yr amodau angenrheidiol yn cael eu gosod.**

| | |
|---|---|
| **W/39913** | **Addasu prif adeilad y tu-allan, dymchwel ac ailadeiladu adeilad presennol y tu allan ynghyd â gwneud estyniad cysylltiol er mwyn ffurfio dwy uned llety gwyliau yn y Bwlch, Capel Iwan, Castellnewydd Emlyn, SA38 9NW**<br><br>Dywedodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [Dwyrain] ei fod wedi derbyn e-bost gan yr asiant yn egluro bod yr adeilad newydd a gynigwyd, er ei fod ar ffurf deulawr, yn darparu llety unllawr yn unig. Fodd bynnag, roedd yr asiant yn deall ac yn gwerthfawrogi'r rheswm drafft dros wrthod y cais yng nghyd-destun y polisi.<br><br>Gwnaed sylw gan yr Aelod lleol, a nododd ei fod yn cefnogi'r cais, yn groes i argymhelliad y swyddog i wrthod y cais, a nododd mai nod y datblygiad oedd addasu hen dwlc mochyn yn llety i ymwelwyr trwy ailddefnyddio'r cerrig gwreiddiol er mwyn cadw cymeriad yr adeilad. Cyfeiriwyd at adroddiad a ddatblygwyd gan Grŵp Gorchwyl Materion Gwledig Caerfyrddin gan nodi pryderon bod ardaloedd gwledig yn cael eu gadael ar ôl ac yr ateb i gynaliadwyedd oedd annog Twristiaeth lle bo hynny'n bosibl. Mynegodd yr Aelod lleol yn gryf na ddylid atal yr ymgeiswyr rhag dilyn y datblygiad arfaethedig a oedd yn hybu twristiaeth yn yr ardal. Yn ogystal, yn groes i argymhelliad y Swyddogion i wrthod y cais, y teimlad oedd y byddai'r estyniad yn welliant ac nad oedd yn cael ei ystyried yn newid helaeth, ac o ganlyniad, cynigiwyd caniatáu'r cais, ac eiliwyd hynny. |

| | |
|---|---|
| | Ategodd yr Uwch Swyddog Rheoli Datblygu [Dwyrain] i'r Pwyllgor y rhesymau pam yr argymhellwyd gwrthod y cais fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad. Roedd y datblygiad arfaethedig yn gyfystyr â newid, ymestyn ac ailadeiladu helaeth i hwyluso'r broses o greu dwy uned wyliau ac oherwydd hyn, fe'i hystyriwyd yn groes i Bolisïau TSM4 a H5 o Gynllun Datblygu Lleol Sir Caerfyrddin 2014 a pharagraff 3.4.1 o Nodyn Cyngor Technegol 23: Datblygu Economaidd Chwefror 2014.<br><br>Consensws y Pwyllgor oedd bod dehongliad y cais yn oddrychol.<br><br>Cytunodd y Pwyllgor y dylid gosod yr amodau angenrheidiol. |

**6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR:**

**6.1. 11EG CHWEFROR 2020;**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 11 Chwefror, 2020 yn gofnod cywir.**

**6.2. 27AIN CHWEFROR 2020**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 27 Chwefror 2020 yn gywir.**

**6.3. 4YDD MAWRTH 2020.**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2020, gan eu bod yn gywir.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**